# Rheoli perthnasoedd gwleidyddol a lobïo am ddylanwad

## Trosolwg

Mae’r safon hon yn ymwneud â meithrin a chynnal perthnasoedd gweithio effeithio gyda llywodraeth leol neu ganolog, grwpiau cymunedol a grwpiau pwyso tuag at ddatblygu eu hymwybyddiaeth a’u dealltwriaeth o faterion sy’n bwysig i chi.

Mae’n cynnwys deall eu man cychwyn, gan ddatblygu negeseuon a thargedu’r rhai y dylid cysylltu â nhw, a chymryd rhan mewn prosesau gwneud penderfyniadau perthnasol trwy lobio’r grwpiau neu’r unigolion hyn.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. nodi gwahanol grwpiau rhanddeiliaid o fewn yr amgylchedd gwleidyddol, a sefydlu eu gofynion a'u buddiannau yn gysylltiedig ag amcanion eich sefydliad
2. monitro amgylcheddau gwleidyddol, a nodi materion sy'n berthnasol i amcanion eich sefydliad
3. asesu effaith bosibl materion a nodwyd a deddfwriaeth arfaethedig ar eich sefydliad, gan nodi cyfleoedd a bygythiadau posibl
4. rhagweld senarios tebygol yn y dyfodol ar sail dadansoddiad realistig o dueddiadau a datblygiadau
5. datblygu a chytuno ar amcanion a strategaethau i fynd i'r afael â chyfleoedd a bygythiadau, gan gynnwys nodi:
   - grwpiau rhanddeiliaid allweddol i'w targedu
   - gweithgareddau i sicrhau'r dylanwad mwyaf
6. nodi gweithgareddau a dulliau cyfathrebu gwleidyddol sy'n anelu at gyflawni'r amcanion a'r strategaethau cytunedig
7. cymryd rhan mewn lobïo gwleidyddion a rhanddeiliaid yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol er mwyn cyflawni amcanion cytunedig, gan ddefnyddio gwahanol dechnegau i gyflwyno syniadau a dadleuon yn effeithiol
8. gwrando'n weithgar, a gofyn cwestiynau, gan gadarnhau pwyntiau i wirio bod y naill a'r llall ohonoch yn deall
9. monitro a gwerthuso effeithiolrwydd lobïo a gweithgarwch cysylltiedig, gan addasu cynlluniau a gweithredoedd o ganlyniad er mwyn cyflawni'r amcanion datganedig
10. meithrin a chynnal perthnasoedd proffesiynol effeithiol gyda rhanddeiliaid gwleidyddol allweddol
11. gweithredu o fewn fframweithiau a chodau ymarfer cyfreithiol a rheoleiddiol perthnasol

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. gofynion cyfreithiol, sefydliadol a pholisi sy'n berthnasol i'ch rôl chi, i rôl pobl eraill yn eich sefydliad ac i'r gweithgareddau sy'n cael eu cyflawni
2. y canllawiau, y polisïau a'r gweithdrefnau lleol a chenedlaethol perthnasol sydd ar gael a sut a phryd y dylid troi atynt
3. datblygiadau mewnol ac allanol allweddol sy'n effeithio ar eich sefydliad, ei wasanaethau, eu heffaith, a'r goblygiadau i ymgyrchoedd materion cyhoeddus a lobïo am ddylanwad
4. rhanddeiliaid allweddol eich sefydliad, eu buddiant a'u gofynion yn gysylltiedig â'ch sefydliad
5. strwythur llywodraeth ar lefel leol a chanolog, a'r prif wahaniaethau rhwng y rhain
6. gweithdrefnau a phrotocolau llywodraeth, gwaith y llywodraeth, a rôl y lobïwr wrth arfer dylanwad
7. proses polisi a gweinyddu cyhoeddus
8. y broses ddeddfwriaethol, a gweithdrefnau cysylltiedig
9. technegau materion cyhoeddus a sut i ddefnyddio'r rhain i ddylanwadu ar lywodraeth a rhanddeiliaid
10. pam mae'n bwysig dangos sensitifrwydd i anghenion a buddion pobl eraill

Rheoli perthnasoedd gwleidyddol a lobïo am ddylanwad

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Skills for Justice |
| **Fersiwn rhif** | 3 |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 26 Mai 2023 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 28 Mai 2028 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Skills for Justice |
| **RCU gwreiddiol** | SFJHG101 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Gwasanaethau Cyhoeddus |
| **Cyfres/Set** | Cyfiawnder Cymunedol |
| **Geiriau Allweddol** | Rheoli; gwleidyddol; perthnasoedd; lobïo; dylanwadu; lobïo; gwleidyddion; grŵp pwysau |